



Cyflwyniad i IAP/BSL

Cyfathrebu pan yn Fyddar

Golyga byddardod na allwn ni glywed. Mae sawl rheswm dros fod yn fyddar a sawl lefel clyw i gael – gall rhai unigolion byddar glywed rhywfaint tra bod eraill yn clywed dim o gwbl. Cyflwyno'r wers hon realaeth byw yn fyddar gan alluogi'r plant i weld normalrwydd hyn.

Cam 1: Cyflwynwch glip Steph. Cyflwyno Steph gan siarad iaith Arwyddion Prydain (BSL) gyda chyfieithu. Dywed Steph **"clywed yw'r unig beth na' allan ni ei wneud – 'dyn ni'n gwneud popeth arall yn union fel chi!"**



Cam 2: Trafodwch sut oedd Steph yn siarad yn y clip, gan ddefnyddio ei dwylo. Holwch y plant beth yr oedden nhw wedi ei weld.

Iaith Arwyddion Prydain (BSL a'i helwir amlaf) yw'r iaith a'i defnyddir gan nifer yn y gymuned fyddar. Defnyddia ieithoedd arwyddion y dwylo a mynegiadau'r wyneb i gyfathrebu a chyfleu gwybodaeth. Mae hi'n iaith yn yr un modd a'r Gymraeg a Saesneg!

Fframwaith Llythrennedd

Gwrando ar eraill gan ganolbwyntio, deall y prif bwyntiau a gofyn am eglurhad os oes ei angen.

Camau Cynnydd

Iaith, Ll a Ch

Rwy'n gallu deall bod pobl yn defnyddio gwahanol ieithoedd.

Rwy'n dechrau deall bod nodweddion tebyg a gwahanol rhwng ein hieithoedd.

Cam 3: Nawr bod y plant wedi ymglyfarwyddo â IAP, gwylwch [rhan yma](#) y ddrama.



Tynnwch sylw'r plant at y sillafu bysedd a sut caiff llythrennau eu cyflwyno fesul un ar brydiau.

Cam 4: Eglurwch, *yn union fel yn yr wyddor Gymraeg "ABC..."* mae siaradwyr IAP yn defnyddio gwyddor ar gyfer sillafu – sillafu bysedd!

Defnyddiwch gyfuniad o'r canllaw (wedi atodi) a'r clip yma o Steph i gyflwyno'r wyddor.



Fframwaith

Llythrennedd

Gwrando ar eraill gan ganolbwyntio, deall y prif bwyntiau a gofyn am eglurhad os oes ei angen.

Camau Cyynydd

laith, Ll a Ch

Rwy'n gallu deall bod pobl yn defnyddio gwahanol ieithoedd.

Rwy'n dechrau deall bod nodweddion tebyg a gwahanol rhwng ein hieithoedd.

Cam 5: Wrth sillafu gyda bysedd mae modd cyflwyno eich hunain i bobl! *Defnyddiwch yr hyn i ni ei ddysgu i ymarfer sillafu eich enwau.*

Cam 6: Gwyliwch glip Nesaf Steph – bydd Steph yn cyflwyno sut i arwyddo “beth yw dy enw?” a, “fy enw i yw...”



Eto, ewch ati i ymarfer mewn parau.

Cam 7: Cychwynnwch y plant ar eu tasg:

Cyflwynwch eich hunain i eraill a holwch eu henwau nhw, dim Cymraeg heddiw, IAP yn unig!

Athrawon hefyd plis 😊

Cyflwyniad Pellach i IAP

Mae cyfleoedd lu ar gael i ddysgu am IAP. Dyma dri gweithgaredd pellach i helpu'r dosbarth fwynhau eu dysgu pellach.

Fframwaith Llythrennedd

Gwrando ar eraill gan ganolbwyntio, deall y prif bwyntiau a gofyn am eglurhad os oes ei angen.

Camau Cynnydd

laith, Ll a Ch

Rwy'n gallu deall bod pobl yn defnyddio gwahanol ieithoedd.

Rwy'n dechrau deall bod nodweddion tebyg a gwahanol rhwng ein hieithoedd.

Anifeiliaid

Yn y ddrama, mae'r tri diferyn cyntaf yn rhoi pwerau trawsnewid yn anifail i Gwion. Gall Ceridwen y wrach hefyd drawsnewid i'w erlid. Bydd y gêm yma'n dysgu arwyddion yr anifeiliaid i'r disgyblion.



Lliwiau

Mae byd y ddrama'n fyd yn llawn lliwiau – *Pa liw ydych chi'n meddwl oedd hylif hud Ceridwen?* Dewch i ni ddysgu cân yr enfys!



Y Tymhorau

Roedd yn rhaid cymysgu'r hylif hud am flwyddyn gyfan a diwrnod yn y ddrama – amser hir iawn! Arhosodd Morfran yn amyneddgar trwy'r tymhorau a phob math o dywydd!

Fframwaith

Llythrennedd

Gwranddo ar eraill gan ganolbwyntio, deall y prif bwyntiau a gofyn am eglurhad os oes ei angen.

Camau Cynnydd

laith, Ll a Ch

Rwy'n gallu deall bod pobl yn defnyddio gwahanol ieithoedd.

Rwy'n dechrau deall bod nodweddion tebyg a gwahanol rhwng ein hieithoedd.



Y Rheolau: Gêm yw hon sy'n dysgu am dywydd a'r tymhorau. Wedi dysgu arwyddion y 4 tymor a sawl tywydd gwahanol cychwynnwech wrth grwydro'r ystafell cyn cyflwyno'r cyfarwyddiadau hyn fesul un.

- Gwanwyn – Pawb i esgus tyfu fel blodyn.
- Haf – Pawb i esgus bwyta hufen iâ mwya'r byd!
- Hydref – Pawb i esgus cicio dail yr hydref!
- Gaeaf – Pawb i arwyddo "eira" a chrynu mewn oerfel!
- Glaw – Pawb i ymgynnull o dan yr ambarél.
- Haul – Pawb i orwedd gan ymlacio a thorheulo.
- Gwynt – Pawb i gael eu chwythu o gwmpas y dosbarth!
- Mellt – Pawb i redeg i gyffwrdd wal am gysgod!

Rydych chi wedi cychwyn dysgu sgil newydd hollol arbennig, ac iaith newydd i fynd allan a chi i'r byd!

Fframwaith Llythrennedd

Gwrando ar eraill gan ganolbwyntio, deall y prif bwyntiau a gofyn am eglurhad os oes ei angen.

Camau Cynnydd

Iaith, Ll a Ch

Rwy'n gallu deall bod pobl yn defnyddio gwahanol ieithoedd.

Rwy'n dechrau deall bod nodweddion tebyg a gwahanol rhwng ein hieithoedd.





